



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## **Adroddiad ar**

**Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe  
Academi Hywel Teifi  
Adeilad Talbot  
Prifysgol Abertawe  
Campws Parc Singleton  
Abertawe  
SA2 8PP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## **Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe**

Ar 1 Awst 2016, trosglwyddwyd cyfrifoldeb llawn am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ailstrwythurodd y Ganolfan Genedlaethol ddarpariaeth ledled Cymru, gan sefydlu 11 o ddarparwyr. Un o'r rhain yw Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe.

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn derbyn grant craidd o £900,305 yn ystod 2018/19 gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddysgu Cymraeg i Oedolion yn ardaloedd Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot.

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn cyflogi tua 50 o staff, y mwyafrif yn diwtoriaid rhan amser, gydag 17 ohonynt yn staff craidd. Mae pennaeth y darparwr yn gweithredu hefyd fel Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi. Y Rheolwr Busnes a Datblygiad Strategol sy'n gyfrifol am weithrediad y darparwr o ddydd i ddydd.

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn darparu ystod o gyrsiau gwahanol ar lefelau Mynediad i Hyfedredd gan gynnwys cyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion, Cymraeg yn y Gweithle, Cymraeg i'r Teulu a Chymraeg Gwaith. Mae hefyd yn darparu rhaglen o gyfleoedd dysgu anffurfiol i ddysgwyr ymarfer ac ymestyn eu medrau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ystod 2017/18 ymrestrodd dros 1,400 o oedolion ar gyrsiau prif ffrwd y darparwr.

## Crynodeb

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn gymuned glòs a chynhwysol sy'n cynnig gofal a chefnogaeth fuddiol i'w dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar y cyfan yn dod yn gynyddol hyderus yn yr iaith gan ddatblygu ystod o fedrau ieithyddol gyda'r prif bwyslais ar siarad yr iaith mewn cyd-destunau defnyddiol ac ystyrion. Mae bron pob dysgwr yn glir iawn ynglŷn â'u rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau dysgu'n fawr iawn ac yn ddysgwyr brwdfrydig ac uchelgeisiol.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio gwersi yn effeithiol er mwyn cwrdd ag anghenion y dysgwyr. Maent yn amrywio'r gweithgareddau o fewn gwersi yn fedrus ac yn codi hwyl wrth gyflwyno ac ymarfer iaith.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth llafar defnyddiol ac ysgogol sydd yn gymorth mawr i ddysgwyr wella agweddau pwysig ar eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid yn gyson yn y ffordd maent yn rhoi adborth i ddysgwyr ar sut i wella eu gwaith ysgrifenedig. O ganlyniad, mae dysgwyr yn rhy aml yn parhau i wneud yr un gwallau.

Mae darpariaeth Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn cynnwys ystod eang a buddiol o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ymarfer yr iaith.

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a nodau strategol pwrpasol sy'n gyson â chynlluniau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae uwch arweinwyr wedi llwyddo i gynnal safon uchel o ddarpariaeth drwy gyfnod o ailstrwythuro.

<b>Maes arolygu</b>	<b>Barn</b>
<b>Safonau</b>	<b>Da</b>
<b>Lles ac agweddau at ddysgu</b>	<b>Da</b>
<b>Addysgu a phrofiadau dysgu</b>	<b>Da</b>
<b>Gofal, cymorth ac arweiniad</b>	<b>Da</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>Da</b>

## **Argymhellion**

- A1 Gwella adborth ar waith ysgrifenedig y dysgwyr
- A2 Gwella'r defnydd o ddeunyddiau ac adnoddau electronig yn ystod gwersi er mwyn cyfoethogi a chysoni profiadau dysgu ac addysgu
- A3 Cydweithio â dysgwyr i sicrhau bod eu barn yn dylanwadu'n ystyrlon ar y ddarpariaeth
- A4 Mireinio llinellau rheoli ac atebolrwydd ar gyfer meysydd penodol

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn cyfranogi'n gadarnhaol ac yn frwdfrydig iawn yn eu gwersi. Maent yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus ac yn adeiladu ar hynny yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer yn gwneud cynnydd cryf tuag at gyflawni eu nodau personol.

Yn y gwersi, mae bron pawb yn gwrando'n astud ar y tiwtor ac yn medru deall iaith naturiol a thafodieithol yr ardal yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn chwilfrydig ac yn awyddus i ymestyn eu dealltwriaeth a'u medrau ieithyddol yn barhaus. Ar y cyfan, mae dysgwyr ar draws y lefelau'n gynyddol hyderus ac yn uchelgeisiol o ran cyflawni rhuglder yn yr iaith Gymraeg. Maent yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac yn defnyddio geiriaduron ac adnoddau electronig yn bwrpasol i ymestyn eu medrau. Mae llawer yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell i gyfathrebu â'r tiwtor a chyflawni tasgau gyda dysgwyr eraill.

Mae lleiafrif o'r dysgwyr yn elwa ar gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned, ac mae hyn yn atgyfnerthu eu medrau cyfathrebu a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd, er enghraifft drwy fynd ar deithiau i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru.

Yn unol â'u lefel, mae llawer o ddysgwyr yn siaradwyr hyderus. Ar y lefelau uwch, mae llawer yn siarad yn rhwydd ac ystwyth gan ddefnyddio geirfa eang ac amrywiol. Mae dysgwyr Uwch ar gyrsiau Siawns am Sgwrs yn llwyddo i gynnal sgysiau estynedig ar ystod eang iawn o bynciau diddorol yn fedrus. Er enghraifft, maent yn medru trin pynciau mor wahanol â diwygiad crefyddol 1904-1905 a rhagoriaethau bwyd cyflym a gynhyrchir gan gwmnïau rhyngwladol.

Mae llawer o ddysgwyr ar bob lefel yn datblygu eu medrau darllen yn gadarn gan ddeall cynnwys testunau cynyddol heriol. Ar lefel Mynediad, maent yn darllen brawddegau byrion yn gyson, ac erbyn lefelau Canolradd ac Uwch, maent yn mwynhau darllen erthyglau a nofelau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr yn cyfuno hyn â medrau llafaredd ac ysgrifennu'n effeithiol gan ymestyn eu geirfa'n fuddiol ac ymateb yn ystrolon ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae llawer o ddysgwyr yn darllen ar goedd yn llwyddiannus gan ynganu a goslefu'n briodol.

Ar draws y lefelau gwahanol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol. Llwydda llawer ar lefelau Mynediad a Sylfaen i ysgrifennu brawddegau byrion gan ddefnyddio cystrawennau elfennol a threiglo'n gywir, ar y cyfan. Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau lefelau Canolradd ac Uwch yn llwyddo i ysgrifennu darnau estynedig at ddibenion gwahanol. Gwnânt gynydd cadarn wrth symud o greu darnau personol a hunangofiannol i themâu mwy haniaethol a soffistigedig ar bynciau llosg megis yr amgylchedd. Ar lefel Canolradd, gwelir hyn yn arbennig yng ngwaith dysgwyr ar gyrsiau dwys. Mae'r dysgwyr hyn yn creu darnau estynedig effeithiol gan ddefnyddio ystod fuddiol o gystrawennau ac amseroedd y ferf i fynegi barn yn glir. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr ar lefelau Canolradd ac Uwch yn dal i wneud gwallau sylfaenol yn ysgrifenedig nad ydynt yn eu gwneud ar lafar. Er enghraifft, maent yn defnyddio ansoddeiriau o flaen enwau yn amhriodol. Yn rhy aml, mae'r dysgwyr hyn yn cymysgu ffurfiau'r ferf 'bod' yn yr amser presennol ac amherffaith neu yn eu hepgor yn gyfan gwbl ar ddechrau brawddegau.

Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae pob dysgwr sy'n dilyn cyrsiau ar lein ar lefelau Mynediad a Hyfedredd wedi cwblhau ac mae'r mwyafrif yn cwblhau cyrsiau cyfunol ar lefelau Mynediad a Sylfaen. Mae ychydig o ddysgwyr cymwys yn dewis sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn llwyddo yn yr arholiadau gydag ychydig ohonynt yn ennill rhagoriaeth.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae tua hanner o'r dysgwyr wedi parhau i ddysgu ar gyrsiau yn ystod y flwyddyn ganlynol.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn gymuned o ddysgwyr brwdfrydig ac uchelgeisiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn medru mynegi'n glir pam maent yn dysgu'r Gymraeg ac yn dangos lefel uchel o gymhelliant. Er enghraifft, mae ychydig yn dysgu am resymau proffesiynol, megis darlithwyr sy'n ymwybodol o'r galw cynyddol am gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae llawer o ddysgwyr yn awyddus i ddysgu am resymau teuluol a diwylliannol.

Mae lleiafrif yn manteisio'n fuddiol ar y cyfleoedd i ddefnyddio ac ymestyn eu medrau Cymraeg drwy fynychu'r digwyddiadau dysgu anffurfiol a drefnir gan y darparwr ac mewn gweithgareddau yn y gymuned. Er enghraifft, drwy fynychu sesiynau 'Dewch i Ganu' sy'n cymell rhwydweithio ac ymarfer y Gymraeg drwy gerddoriaeth a chanu. Mae ychydig o ddysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain drwy drefnu cyfarfodydd cymdeithasol i ymarfer yr iaith yng nghwmni ei gilydd a siaradwr rhugl lleol. Pan fo cyfle ganddynt, mae dysgwyr yn fodlon lleisio eu barn ar y ddarpariaeth yn gadarnhaol.

Mae bron pob dysgwr yn mwynhau eu dysgu'n fawr, a hynny mewn awyrgylch lle maent yn teimlo'n ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r cymorth ychwanegol sydd ar gael iddynt ac yn gwybod at bwy i droi petai problem. Maent yn teimlo'n gyfforddus i geisio cymorth a chyngor tiwtoriaid ynghylch eu dysgu, gyda'r hyder y byddant yn sicr o'u helpu.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn werthfawr i holi cwestiynau a defnyddio'r Gymraeg mewn modd lled ffurfiol gyda chymorth eu tiwtoriaid. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos ymroddiad cryf i'r broses ddysgu. Maent yn cwblhau gwaith cartref yn gyson ac yn ymarfer drwy ddefnyddio adnoddau rhyngweithiol yn fuddiol yn eu hamser eu hunain i ddatblygu eu medrau ieithyddol.

Yn y gwersi, mae bron pawb yn canolbwyntio'n dda ac yn arddangos dyfalbarhad amlwg pan fyddant yn dysgu a defnyddio elfennau ieithyddol newydd. Maent yn ymfalchïo yn eu cynnydd. Mae llawer yn ymgymryd â thasgau yn y dosbarth yn bwrpasol gan roi cystrawennau a geirfa newydd ar waith yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n effeithiol yn unigol. Maent yn barod iawn i gymryd rhan gyflawn yn y gweithgareddau drwy gydweithio'n gynhyrchiol mewn paru a grwpiau. Mae bron pawb yn groesawgar wrth ymwelwyr ac yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i ymarfer eu Cymraeg gyda nhw. Mae bron pawb yn dangos parch at gyfraniadau pobl eraill gan wrando'n gwrtais ar ei gilydd ac ymateb yn bwylllog pan fydd dysgwyr eraill yn anghytuno â nhw. Mae'r ethos o gydweithio a chyd-barch, gyda dysgwyr yn cefnogi a chynnal ei gilydd, yn nodwedd gadarnhaol ar draws y ddarpariaeth. Mewn llawer o'r gwersi, mae dysgwyr ar bob lefel yn rhoi cymorth i gyd-ddysgwyr sy'n cael trafferth â thasg ac yn annog dysgwyr llai hyderus.

## **Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ymdeimlad cymunedol cryf yn y dosbarthiadau sydd yn meithrin dysgu llwyddiannus. Mae bron pob tiwtor yn sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'u dysgwyr. Maent yn frwdfrydig wrth ennyn diddordeb eu dysgwyr ac maent yn ofalgar ac yn gefnogol iawn ohonynt.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid adnabyddiaeth dda o'u dysgwyr a llwyddant i gynllunio'n briodol er mwyn cwrdd â'u hanghenion dysgu. Mae amcanion clir i'w gwersi a chynlluniant yn effeithiol er mwyn sicrhau bod gan bob dysgwr gyfleoedd priodol i atgyfnerthu eu dysgu blaenorol a chyfrannu yn ystod y gwersi. Mae'r tiwtoriaid hyn yn sicrhau bod cyflymdra addas i'w gwersi. Maent yn amrywio'r gweithgareddau o fewn gwersi yn fedrus ac yn codi hwyl wrth gyflwyno ac ymarfer yr iaith.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn fodolau iaith da. Gwnânt ddefnydd medrus o'r Gymraeg, mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, fel cyfrwng dysgu ac addysgu yn ystod y gwersi.

Mae gan lawer o diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr. Maent yn torri'r garw yn effeithiol ar ddechrau'r wers ac yn gwneud defnydd ysgogol o adnoddau dysgu, er enghraifft gemau iaith, caneuon ac ystod o sbardunau gweledol a chlywedol apelgar. Yn sgil hyn, maent yn llwyddo i ennyn diddordeb y dysgwyr yn effeithiol ac yn eu herio i ymestyn eu medrau iaith. Mewn ychydig o wersi, nid yw tiwtoriaid yn darparu cyfleoedd digonol i ddysgwyr gyfrannu'n weithredol yn eu dysgu eu hunain ac, o ganlyniad, maent yn rhy oddefol.

Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn hyblyg wrth ddilyn trywyddau diddorol sydd o ddiddordeb i'r dysgwyr ac yn caniatáu iddynt ddatblygu ac ymarfer eu hiaith mewn cyd-destunau perthnasol a buddiol. Mae'r tiwtoriaid hyn yn annog dysgwyr unigol i gyflwyno gwybodaeth yn estynedig amdanynt eu hunain ac am ystod o bynciau trafod diddorol. Maent yn annog dysgwyr i gwestiynu ei gilydd er mwyn datblygu sgysiau naturiol ac estynedig.

Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn rhoi sylw dyledus i bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth gan hybu gweithgareddau dysgu anffurfiol y darparwr yn briodol. Er enghraifft, taith gerdded i ddysgwyr oedd am ddysgu am hanes a diwylliant Cwm Afan.

Mae ychydig o diwtoriaid yn mabwysiadu dulliau creadigol buddiol i gyfoethogi profiadau dysgwyr, er enghraifft trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gyflwyno geirfa ac idiomau newydd ar draws ystod o bynciau cyfoes. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid yn gwneud digon o ddefnydd o TGCh, hyd yn oed pan fo'r adnoddau ar gael iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth llafar defnyddiol ac ysgogol yn y gwersi. Mae hyn yn gymorth mawr i ddysgwyr wella agweddau pwysig ar eu gwaith, er enghraifft wrth ynganu'r iaith ac ehangu eu geirfa. Mae llawer o diwtoriaid yn holi cwestiynau'n effeithiol er mwyn gwirio dealltwriaeth dysgwyr, dyfnhau eu deall ac ymestyn eu hymatebion. Ar y cyfan, mae tiwtoriaid yn caniatáu i sgysiau lifo yn hytrach na thynnu sylw at fân wallau neu ambell air Saesneg. Fodd bynnag, mewn

y chydig o achosion, mae tiwtoriaid yn colli cyfleoedd i dynnu sylw dysgwyr at wallau cyffredin a'u hymarfer, er enghraifft wrth ymateb yn gadarnhaol neu'n negyddol i gwestiynau.

Ar y cyfan, nid yw tiwtoriaid yn gwneud defnydd rheolaidd a buddiol o bolisi adborth y darparwr. Mae llawer o diwtoriaid yn cynnig adborth ysgrifenedig cefnogol i ddysgwyr, yn tynnu sylw at wallau ac yn eu trafod ar lafar. Serch hynny, nid oes disgwyl i ddysgwyr fireinio eu gwaith yn sgil derbyn y sylwadau hyn, er enghraifft trwy ymarfer cystrawennau anodd er mwyn eu meistrolï. Mewn ychydig o wersi, mae'r tiwtoriaid yn orddibynnol ar ddysgwyr i asesu eu gwaith eu hunain.

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn darparu profiadau dysgu sydd yn ysgogi, herio a chefnogi dysgwyr, beth bynnag eu safon wrth ddysgu Cymraeg. Mae'r darparwr yn cynllunio'n briodol i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr lleol, yn ogystal â bodloni blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft cyrsiau i staff ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg lleol a chwrs i fyfyrwyr meddygaeth a nyrsio. Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi bod yn flaengar wrth ddarparu'n benodol ar gyfer cymunedau lleol, er enghraifft uned galw heibio dros dro ym Mhort Talbot a chyrsiau ar gyfer cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn yr ardal.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys ystod addas o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, sicrhau bod llwybrau parhad a dilyniant clir ar gael i ddysgwyr ddatblygu eu medrau iaith. Dros amser, mae'r darparwr wedi cynyddu'n briodol nifer y gweithgareddau atodol a gynigir i atgyfnerthu'r ddarpariaeth graidd, er enghraifft Sadyrnau Siarad, cyrsiau preswyl tymhorol a chyrsiau adolygu arholiadau.

Darperir cyfleoedd ychwanegol buddiol er mwyn chefnogi'r dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft ar deithiau cerdded neu drwy ymweld â'r theatr. Gwneir defnydd pwrpasol o ddwy ganolfan Gymraeg leol, Tŷ Tawe a Thŷ'r Gwrhyd, er mwyn cynnal gweithgareddau cefnogol, er enghraifft clybiau darllen lle caiff dysgwyr gyfleoedd i drafod testunau amrywiol gan gynnwys straeon, cerddi, nofelau a dramâu. Serch hynny, nid yw'r darparwr yn hyrwyddo gwerth y cyfleoedd ychwanegol hyn yn ddigon cyson.

At ei gilydd, mae tiwtoriaid yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys cyrsiau addysgol. Maent yn ddeunyddiau ysgogol a pherthnasol gan fwyaf; serch hynny, defnyddir ychydig iawn o ddeunyddiau nad ydynt bob tro'n adlewyrchu agweddau cyfoes.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae bron pob tiwtor yn darparu cymorth unigol da ac adeiladol ar gyfer y dysgwyr yn eu gofal. Maent yn sicrhau awyrgylch gynhaliol ac ysgogol lle mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n ddiogel ac yn awyddus i gyfranogi'n gadarnhaol.

Mae'r darparwr yn cynnig ystod o wybodaeth ddefnyddiol i gynorthwyo dysgwyr i ddewis y cwrs mwyaf perthnasol iddynt. Mae canllawiau'r darparwr a roddir i bob dysgwr yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ac yn cyfeirio at bolisiau perthnasol a manylion staff i gysylltu â nhw, os oes angen. Drwy ddarparu dogfennau perthnasol, fel y cod ymddygiad a pholisi cwyno, mae'r darparwr yn ymdrechu'n llwyddiannus i sicrhau bod dysgwyr yn gwybod at bwy i droi petai problem yn codi.



Mae'r darparwr yn trefnu cyfleoedd cyson a defnyddiol i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Trefnir rhaglen eang o ddysgu atodol buddiol fel Sadyrnau Siarad yn seiliedig ar themâu megis Santes Dwynwen a thraddodiadau'r Nadolig yng Nghymru. Cynigir cyfleoedd dysgu anffurfiol amrywiol, er enghraifft noson gyri a rygbi a boreau coffi, i alluogi dysgwyr i ryngweithio â'i gilydd yn Gymraeg.

Mae'r tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros drefnu cyfleoedd i ymarfer eu hunain, gan gynnwys cyfarfodydd cymdeithasol ac ysgrifennu colofn yn y papur bro lleol. Yn ogystal, mae'r darparwr yn trefnu gwibdeithiau diddorol. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â Gŵyl Nadolig Sain Ffagan ac Eisteddfod yr Urdd er mwyn rhoi cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ymestyn eu gwybodaeth am dreftadaeth ac etifeddiaeth Cymru.

Mae gan y darparwr drefniadau priodol i ddysgwr gofnodi anghenion dysgu ychwanegol ar lein wrth gofrestru. Mae'r darparwr yn manteisio ar fod yn rhan o Brifysgol Abertawe i gynnig cymorth defnyddiol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol drwy'r arbenigedd sydd ar gael o fewn y sefydliad. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr yn derbyn cefnogaeth briodol yn enwedig o ran anawsterau golwg a chlyw.

Mae'r darparwr yn ceisio barn dysgwyr yn gyson, er enghraifft drwy holiaduron cywain barn a thrwy holi dysgwyr wyneb yn wyneb fel rhan o'r broses arsylwi dosbarthiadau a sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, nid yw'r systemau i gasglu a dadansoddi barn dysgwyr yn ddigon trwyadl i sicrhau cyfranogiad gan y mwyafrif ohonynt. O ganlyniad, mae effaith barn y dysgwyr ar y ddarpariaeth yn gyfyngedig.

Mae trefniadau diogelu'r darparwr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn rhan greiddiol o Academi Hywel Teifi o fewn y brifysgol. Mae arweinwyr y darparwr wedi sefydlu gweledigaeth glir a nodau strategol (yn seiliedig ar weledigaeth yr Academi) sy'n cydymffurfio â chynlluniau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Y weledigaeth hon yw 'cefnogi myfyrwyr o bob oedran a chefnidiroedd addysgiadol, diwylliannol a sosio-economaidd i ddysgu'r Gymraeg neu ddatblygu eu sgiliau yn yr iaith'. Eu nod yw cynorthwyo'r Gymraeg i ffynnu nid yn unig o fewn Ardal Dinas Bae Abertawe ond hefyd yn genedlaethol. Mae rheolaeth y darparwr wedi bod yn heriol oherwydd y gyfundrefn a etifeddwyd yn dilyn ailstrwythuro darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn 2016 ac oherwydd goblygiadau gwarchod telerau ac amodau cyflogaeth staff o ddau sefydliad allanol. Mae rheolwyr yn parhau i fynd i'r afael yn briodol â rhai o'r heriau rheoli newid hyn. Mae uwch arweinwyr wedi ailstrwythuro'r darparwr yn briodol yn sgil ad-drefnu Cymraeg i Oedolion yn genedlaethol a diddymiad Canolfan Cymraeg i Oedolion De-Orllewin Cymru. Fel rhan o'r broses ailstrwythuro, bu diswyddiadau gwirfoddol, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau gorfodol. Bu proses gyfreithiol hir o gymathu, sy'n parhau. Er bod yr ad-drefnu wedi llwyddo i greu strwythur rheoli clir ac i sicrhau cytundebau newydd, nid yw'r arweinwyr wedi llwyddo'n llwyr eto i greu ethos o gydweithio o fewn un tîm. Serch hynny, mae uwch arweinwyr wedi llwyddo i gynnal safon uchel o ddarpariaeth drwy'r cyfnod anodd hwn o ailstrwythuro.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn gosod ffocws cryf ar les a chynnydd y dysgwyr, ar ddarparu cyfleoedd dysgu yn y gymuned, ac ar ddarparu addysg o'r safon uchaf i ddysgwyr. Yn ogystal, mae rolau arweinyddion yn glir ac yn ddealladwy, mae ganddynt swydd ddisgrifiadau addas, a chyfrifoldebau clir. Mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad pwrpasol, gan gynnwys y tiwtoriaid craidd a'r tiwtoriaid cysylltiol. Mae systemau atebolrwydd yn glir oddi mewn i strwythur y brifysgol a'r darparwr. Mae prosesau rheoli perfformiad staff a rheolwyr yn effeithiol, ac maent yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn drylwyr. Er bod swydd ddisgrifiadau'n glir ar y cyfan, nid oes sicrwydd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am agweddau penodol o'r ddarpariaeth, er enghraifft datblygu'r defnydd o TGCh, trosolwg o anghenion dysgwyr unigol a llais y dysgwyr.

Mae systemau cyfathrebu clir rhwng y rheolwyr a'r tiwtoriaid, sy'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd addas sy'n canolbwyntio ar sicrhau safonau uchel a lles y dysgwyr. Defnyddir y bwletin ansawdd yn effeithiol i gyfathrebu â'r holl staff am waith y darparwr a'r datblygiadau diweddaraf yn y maes.

Mae gan y darparwr systemau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Mae rheolwyr yn dadansoddi data perfformiad ac yn arsylwi gwersi yn rheolaidd. Mae'r broses arsylwi yn fodd ychwanegol o gywain barn y dysgwyr ac mae'n cynnig trosolwg o gryfderau a gwendidau'r dysgu ac addysgu. Serch hynny, er bod arweinwyr yn casglu data perfformiad a barn y dysgwyr, nid ydynt yn eu defnyddio'n ddigon effeithiol i sicrhau gwelliant.

Mae'r Gweithgor Cynllunio'n casglu ac yn trafod yr holl ganlyniadau yn fisol. O ganlyniad, mae prosesau sicrhau ansawdd yn gosod darlun addas o gryfderau a gwendidau yn safonau'r ddarpariaeth.

Mae rhaglen hyfforddiant addas ar gael gan y darparwr sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant cychwynnol i diwtoriaid newydd neu ddbrofiad, a hyfforddiant ar faterion cenedlaethol, er enghraifft y cyrsiau cenedlaethol newydd. Mae gan y darparwr raglen hyfforddi flynyddol. Ceir hyfforddiant TGCh elfennol sy'n seiliedig ar ofynion staff yn y cyfarfodydd rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw pob tiwtor yn medru mynychu'r hyfforddiant hwn oherwydd eu hargaeledd. Nid oes gan y darparwr gynllun hyfforddi rhagweithiol i ehangu medrau staff dysgu.

Mae cydweithio effeithiol o fewn Academi Hywel Teifi ac o fewn y brifysgol yn ehangach er mwyn manteisio ar arbenigeddau perthnasol, er enghraifft i ddatblygu cyrsiau Cymraeg Gwaith i fyfyrwyr meddygaeth a nyrsio fel rhan o'u hyfforddiant craidd, a rhannu'r arbenigedd hwnnw'n genedlaethol.

Mae'r darparwr yn elwa o gefnogaeth sefydliadol y brifysgol a hynny heb unrhyw frigdorri o'r grant craidd. Mae'r brifysgol yn brigdorri swm, o incwm y ffioedd dysgu'n unig, sy'n gywerth ag oddeutu 10% o'r grant darparu. Enghraifft o'r gefnogaeth hon fu creu dwy swydd Tiwtor dan Hyfforddiant wedi eu hariannu gan Academi Hywel Teifi yn ganolog. Mae'r darparwr yn cyflawni gofynion y Ganolfan Genedlaethol o fewn y gyllideb sydd ganddi, ac yn rheoli ei chyllideb yn effeithiol a doeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr y darparwr ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

<b>Rhagorol</b>	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
<b>Da</b>	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
<b>Digonol ac angen gwelliant</b>	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
<b>Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys</b>	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2019